

Bondio cofalent

Amcanion dysgu

- 1 Diffinio'r term bond cofalent.
- 2 Adnabod, defnyddio a dehongli gwahanol fathau o ddiagramau o fondio cofalent mewn moleciwlau bach.
- 3 Nodi cyfyngiadau diagramau o fondio cofalent.

Cyflwyniad

Mae bondio cofalent yn digwydd pan fydd electronau'n cael eu rhannu. Mae gan lawer o wahanol sylweddau fondiau cofalent a gellir cynrychioli bondio cofalent drwy ddefnyddio gwahanol fathau o ddiagramau. Yn y gweithgaredd hwn, byddwch yn dod i ddeall y diagramau hyn a'u cyfyngiadau.

Cyfarwyddiadau

1. Gludwch y stribed strwythur ar ymyl eich llyfr gwaith/papur.
2. Dilynwch yr awgrymiadau i ysgrifennu crynodeb o adeileddau a bondiau cofalent. Mae'n bosibl y bydd angen i chi ddefnyddio gwerslyfr, canllaw adolygu neu wefan i'ch helpu. Cofiwch ysgrifennu mewn brawddegau llawn, gan ddisgrifio'r cwestiwn yn eich ateb a defnyddio geiriau allweddol priodol.
3. Ar ôl i chi orffen y stribed strwythur dylai fod gennych wybodaeth dda am adeileddau a bondiau cofalent. Nawr, rhowch gynnig ar y cwestiwn isod i ddefnyddio eich gwybodaeth mewn cyd-destun newydd.


Geiriau allweddol

Efallai byddwch chi eisiau defnyddio rhai o'r geiriau canlynol yn eich atebion: cofalent, bondio, enfawr, cyfyngiad, moleciwl, polymer.

Cwestiwn dilynol

Mae'r ffotograff yn dangos moleciwl bach wedi'i adeiladu gyda Molymods®. Rhowch fformiwla'r moleciwl a lluniadwch y moleciwl fel:

- (a) Diagram dot a chroes
- (b) Diagram pêl a ffon
- (c) Fformiwla sgerbydol neu adeileddol



Stribedi strwythur Bondio cofalent	Stribedi strwythur Bondio cofalent	Stribedi strwythur Bondio cofalent	Stribedi strwythur Bondio cofalent	Stribedi strwythur Bondio cofalent
Sut mae bondiau cofalent yn cael eu ffurfio?	Sut mae bondiau cofalent yn cael eu ffurfio?	Sut mae bondiau cofalent yn cael eu ffurfio?	Sut mae bondiau cofalent yn cael eu ffurfio?	Sut mae bondiau cofalent yn cael eu ffurfio?
Mae bondiau cofalent yn gallu bod mewn moleciwlau bach, moleciwlau mawr ac adeileddau cofalent enfawr. Rhowch enghreifftiau o bob un.	Mae bondiau cofalent yn gallu bod mewn moleciwlau bach, moleciwlau mawr ac adeileddau cofalent enfawr. Rhowch enghreifftiau o bob un.	Mae bondiau cofalent yn gallu bod mewn moleciwlau bach, moleciwlau mawr ac adeileddau cofalent enfawr. Rhowch enghreifftiau o bob un.	Mae bondiau cofalent yn gallu bod mewn moleciwlau bach, moleciwlau mawr ac adeileddau cofalent enfawr. Rhowch enghreifftiau o bob un.	Mae bondiau cofalent yn gallu bod mewn moleciwlau bach, moleciwlau mawr ac adeileddau cofalent enfawr. Rhowch enghreifftiau o bob un.
Gellir cynrychioli bondiau cofalent drwy ddefnyddio gwahanol ddiagramau, gan gynnwys diagramau dot a chroes. Eglurwch sut byddech chi'n lluniadu diagram dot a chroes o'r bondio cofalent mewn amonia. Rhowch esboniad llawn o bob penderfyniad yn lluniad eich diagram.	Gellir cynrychioli bondiau cofalent mewn gwahanol ddiagramau, gan gynnwys diagramau dot a chroes. Eglurwch sut byddech chi'n lluniadu diagram dot a chroes o'r bondio cofalent mewn amonia. Rhowch esboniad llawn o bob penderfyniad yn lluniad eich diagram.	Gellir cynrychioli bondiau cofalent mewn gwahanol ddiagramau, gan gynnwys diagramau dot a chroes. Eglurwch sut byddech chi'n lluniadu diagram dot a chroes o'r bondio cofalent mewn amonia. Rhowch esboniad llawn o bob penderfyniad yn lluniad eich diagram.	Gellir cynrychioli bondiau cofalent mewn gwahanol ddiagramau, gan gynnwys diagramau dot a chroes. Eglurwch sut byddech chi'n lluniadu diagram dot a chroes o'r bondio cofalent mewn amonia. Rhowch esboniad llawn o bob penderfyniad yn lluniad eich diagram.	Gellir cynrychioli bondiau cofalent mewn gwahanol ddiagramau, gan gynnwys diagramau dot a chroes. Eglurwch sut byddech chi'n lluniadu diagram dot a chroes o'r bondio cofalent mewn amonia. Rhowch esboniad llawn o bob penderfyniad yn lluniad eich diagram.
Mae dŵr yn adeiledd cofalent syml. Lluniadwch ddŵr ym mhob un o'r ffurfiau hyn: <ul style="list-style-type: none"> • Model pêl a ffon • Diagram dot a chroes • Fformiwla sgerbydol 	Mae dŵr yn adeiledd cofalent syml. Lluniadwch ddŵr ym mhob un o'r ffurfiau hyn: <ul style="list-style-type: none"> • Model pêl a ffon • Diagram dot a chroes • Fformiwla sgerbydol 	Mae dŵr yn adeiledd cofalent syml. Lluniadwch ddŵr ym mhob un o'r ffurfiau hyn: <ul style="list-style-type: none"> • Model pêl a ffon • Diagram dot a chroes • Fformiwla sgerbydol 	Mae dŵr yn adeiledd cofalent syml. Lluniadwch ddŵr ym mhob un o'r ffurfiau hyn: <ul style="list-style-type: none"> • Model pêl a ffon • Diagram dot a chroes • Fformiwla sgerbydol 	Mae dŵr yn adeiledd cofalent syml. Lluniadwch ddŵr ym mhob un o'r ffurfiau hyn: <ul style="list-style-type: none"> • Model pêl a ffon • Diagram dot a chroes • Fformiwla sgerbydol
Nodwch gyfyngiadau defnyddio modelau i gynrychioli moleciwlau cofalent.	Nodwch gyfyngiadau defnyddio modelau i gynrychioli moleciwlau cofalent.	Nodwch gyfyngiadau defnyddio modelau i gynrychioli moleciwlau cofalent.	Nodwch gyfyngiadau defnyddio modelau i gynrychioli moleciwlau cofalent.	Nodwch gyfyngiadau defnyddio modelau i gynrychioli moleciwlau cofalent.

